Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) - Diweddariad CBLlL

Dyddiad cyfarfod CBLlL: Dydd Mawrth 22 Medi 2026

Lleoliad: Cyfarfod hybrid,wedi ei gynnal gan Gaerfyrddin

Cadeirydd: Y Cynghorydd Elin Hywel, Gwynedd

Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Jayne Smith, Rhondda Cynon Taf

Eitem agenda	Manylion
Diweddariad Awdurdod Lletya	Rhoddodd Chris Moore o'r Awdurdod Lletya a ddiweddariad mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y CBLl a chyflwynodd ddiweddariad Cynllun Busnes 2026/27 ar 30 Mehefin 2026 (Atodiad 1). Rhoddodd John Wright o Hymans Robertson ddiweddariad mewn perthynas â Buddsoddiad Cyfrifol. Mae Adroddiad Effaith Cymru gyfan cyntaf PPC (sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025) wedi'i baratoi gan The Good Economy (TGE) a gellir dod o hyd iddo ar wefan PPC. Bydd hwn yn adroddiad blynyddol ac mae'r TGE yn y broses o gwblhau'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026.
Adolygu'r Cofrestr Risg	Mae'r OWG yn gyfrifol am gynnal y Gofrestr Risg ac adrodd yn ôl unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLlL bob chwarter. Mae'r gofrestr wedi'i hadolygu, nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud. Mae'r Gofrestr Risg gyfredol ar wefan PPC.
Adolygiadau Polisi – Polisi Cwynion a Polisi Chwythu'r Chwiban	Mae PPC wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun sydd i'w hadolygu'n rheolaidd. Y chwarter hwn, mae'r OWG wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisïau Cwynion a Chwythu'r Chwiban. Mae'r Polisi Cwynion yn darparu canllawiau i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar y weithdrefn i'w dilyn mewn perthynas â chwynion materion gweithredol ac ansawdd gwasanaeth PPC. Yn ystod yr adolygiad polisi hwn, ychwanegwyd pwynt newydd (pwynt rhif 6) mewn

	perthynas â chwynion sy'n ymwneud â WPP IM Co a mewnosodwyd cyfnod adolygu (pwynt rhif 7) i fod yn gyson â pholisïau eraill PPC. Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn rhoi canllawiau i Bersonél a Darparwyr PPC ar sut i godi pryderon os ydynt yn amau camymddwyn gan unrhyw un sy'n gweithredu o ran neu ar ran PPC. Mae'r polisi hwn wedi'i adolygu, ac mae un mân welliant sef newid enw o Gwynedd Council i Gyngor Gwynedd yn yr adran gyflwyno. Mae'r polisïau wedi'u diweddaru wedi'u cymeradwyo ac wedi'u diweddaru ar wefan PPC.
Diweddariad Gweithredwr	Cyflwynodd Waystone eu hadroddiad diweddaru chwarterol ar 30 Mehefin 2026 (Atodiad 3). Mae hyn yn rhoi diweddariad ar is-gronfeydd PPC a gweithgareddcorfforaethol ac ymgysylltu.
Adroddiadau Perfformiad ar 30 Mehefin 2026	Cyflwynodd Russell Investments bapur cryno ar berfformiad Ch2 2026 (Atodiad 4) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2026.
Diweddariad WPP IM Co	WPP IM Co yw'r cwmni rheoli buddsoddiadau ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac fe'i sefydlwyd ym mis Awst 2025, gyda Rob Lamb wedi'i benodi'n Brif Swyddog Gweithredol ym mis Medi 2025. Darparodd Rob Lamb ddiweddariad cynnydd (Atodiad 5) yn crynhoi'r hyn y mae'r cwmni wedi'i gyflawni hyd yma mewn perthynas â Llywodraethu, Pobl a Gweithrediadau.
Eitemau Eithriedig – trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod rhan angyhoeddus y cyfarfod.	
Ymgysylltu â Robeco Adroddiad – Ch2 2026	Ym mis Mawrth 2025, ailbenodwyd Robeco fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i ymgymryd â swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran y PPC. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Chwarter 2 2026. Y thema

	ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer Ch2 2026 oedd Addasu a Gwydnwch.
Buddsoddi Cyfrifol ac adroddiadau Risg Hinsawdd	Bob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd chwarterol ar gyfer is-gronfeydd PPC. Ar gyfer Chwarter 2 2026 (chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2026), cynhyrchwyd adroddiadau ARB a MAC. Cyflwynodd Hymans yr adroddiadau i aelodau'r CBLlL.
Adolygiadau Is-Gronfa	Mae Hymans Robertson yn cynnal adolygiad perfformiad blynyddol o ddetholiad o Is-gronfeydd PPC. Yn ystod 2025/26, cynhaliwyd adolygiad annibynnol o gronfeydd Global Government Bond a Global Credit PPC. Cyflwynodd Hymans yr adroddiad i aelodau'r CBLl.

Dolen gwe-ddarlledu ar gyfer cyfarfod CBLl 22 Medi 2026 isod:

Agenda ar gyfer Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ar ddydd Mawrth, 22 Medi, 2026, 10.00 am

Cyfeiriad gwefan PPC - Cronfa Bensiwn Cymru | Hafan (walespensionpartnership.org)

Cyfarfod nesaf:

- Dydd Mercher 16 Rhagfyr 2026 – Cyfarfod rhithiol